# Cofnodion

## Pwyllgor Craffu ar Berfformiad – Partneriaethau

| | |
|---|---|
| Dyddiad: | 10 Hydref 2023 |
| Amser: | 10.00am |
| Yn bresennol: | Cynghorwyr E Stowell-Corten (Cadeirydd), F Hussain, M Pimm, P Drewett, A Screen a B Davies |
| Yn Bresennol: | Phil Diamond (Pennaeth y Tîm Partneriaeth Rhanbarthol). Sally Ann Jenkins (Cyfarwyddwr Strategol - Gwasanaethau Cymdeithasol), Jason Hughes (Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol), Neil Barnett (Cynghorydd Craffu), Taylor Strange (Swyddog Llywodraethu), Simon Richards (Swyddog Llywodraethu) |
| Ymddiheuriadau: | Cynghorwyr C Baker-Westhead, J Jones, A Morris a K Whitehead |

---

1 **Datganiadau o ddiddordeb**

Nododd y Cadeirydd a'r Cynghorydd Hussain eu haelodaeth ar Bwyllgor Craffu BGC Rhanbarthol Gwent.

2 **Cynllun Ardal Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent (BPRh) 2023 - 2027**

Gwahoddedigion:
- Phil Diamond – Pennaeth y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol
- Sally Anne Jenkins – Cyfarwyddwr Strategol Gwasanaethau Cymdeithasol
- Y Cynghorydd Jason Hughes - Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol:

Rhoddodd Pennaeth y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a'r Cyfarwyddwr Strategol Gwasanaethau Cymdeithasol drosolwg o'r adroddiad.

Gofynnodd yr Aelodau'r cwestiynau canlynol:

- Holodd y Pwyllgor am effeithiolrwydd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Tynnodd y Cyfarwyddwr Strategol sylw at bresenoldeb sawl bwrdd gan bwysleisio pwysigrwydd cydweithio a gwaith a rennir.

- Gofynnodd y Pwyllgor am grynodeb ar bwrpas yr adroddiad. Esboniodd Pennaeth y Tîm Partneriaeth Rhanbarthol ei fod yn cydgrynhoi amryw adroddiadau ac yn amlinellu pwyntiau gweithredu i fodloni gofynion Llywodraeth Cymru.  Pwysleisiodd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol atebolrwydd a chanlyniadau. Nododd y Cyfarwyddwr Strategol fod y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn sicrhau bod y pum awdurdod lleol yn cydweithio i fynd i'r afael â materion a amlygwyd gan Lywodraeth Cymru.

- Mynegodd y Pwyllgor bryder am ddiffyg gwaith partneriaeth o ran yr ymddiriedolaeth hamdden a gweithgarwch corfforol. Eglurodd y Cyfarwyddwr Strategol fod gwaith yn cael ei wneud i gynnwys unigolion anabl mewn gweithgarwch corfforol a soniodd am ymdrechion i gefnogi'r rhai ag atgyfeiriadau meddyg teulu. Amlygodd Pennaeth y Tîm Partneriaeth Rhanbarthol y byddai'r adroddiad yn cael ei graffu ochr yn ochr â Chynllun Llesiant Gwent ac amlygwyd yn Adran 16 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) bod gofyniad i sefydlu mentrau cymdeithasol. Nododd Pennaeth y Tîm Partneriaeth Rhanbarthol y byddai angen iddynt ei wneud yn gliriach yn yr adroddiad.

- Holodd y Pwyllgor am y manteision i Gasnewydd a sut maen nhw'n osgoi problemau o ran galw staff. Eglurodd y Cyfarwyddwr Strategol natur statudol y bwrdd, mynediad i'r gronfa integreiddio ranbarthol, a'r ffocws ar anghenion penodol grwpiau bach. Amlygodd y Cyfarwyddwr Strategol fod y cydweithio rhwng y pum awdurdod lleol yn caniatáu darpariaeth gref, a nododd nad oedd cystadleuaeth staff yn broblem gan mai'r hyn sy'n gweithio orau i bob awdurdod yw cydweithio a oedd yn rhoi safbwynt cryf a chydlynol iddynt.

- Gofynnodd y Pwyllgor am yr heriau sy'n wynebu'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Soniodd y Cyfarwyddwr Strategol am gyfyngiadau cyllidebol, lleihau'r Gronfa Integreiddio Ranbarthol, hyfforddiant a datblygiad gyrfaol, cadw staff, ac effaith y pandemig a chostau byw. Trafododd Pennaeth y Tîm Partneriaeth Rhanbarthol ymdrechion recriwtio mewn colegau gan dynnu sylw at y cwrs Mynediad at Feddygaeth yng Ngholeg Gwent.

- Roedd y Pwyllgor eisiau gwybod sut yr oedd y bwrdd yn bwriadu osgoi defnyddio eiddo Gwely a Brecwast i bobl ifanc. Cytunodd y Cyfarwyddwr Strategol i roi gwybodaeth ac o bosibl drefnu cyfarfod ar y mater.

- Cynigiodd y Pwyllgor y dylid ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i wrthwynebu lleihau cyllid. Mynegodd y Cyfarwyddwr Strategol a'r Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol gefnogaeth i'r cam hwn, gan dynnu sylw at y difrod posibl o leihau cyllid.

- Nododd y Pwyllgor y diffyg gwybodaeth yn yr adroddiad ynghylch y cynnydd mewn gordewdra gan bwysleisio ei bwysigrwydd. Gofynnon nhw am strategaeth benodol neu os oedd y bwrdd partneriaeth yn mynd i'r afael â'r mater hwn. Soniodd Pennaeth y Tîm Partneriaeth Rhanbarthol ei fod yn bwynt allweddol yn y cynllun lles ac yn cael blaenoriaeth yn y bwrdd partneriaeth rhanbarthol, ond roedd mwy o ffocws hefyd ar fynd i'r afael ag ef ar lefel leol.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am fod yn bresennol.

**<u>Casgliadau</u>**

- Diolchodd y Pwyllgor i'r swyddogion am eu cyflwyniad a chanmolodd y bwrdd partneriaeth am eu hymdrechion parhaus. Nodwyd bod y ddogfen yn eithaf cymhleth ac ailadroddus, ac roeddent yn teimlo y gallai gwybodaeth bwysig fynd ar goll yn y ddogfen o ganlyniad. Er eu bod yn deall yr angen statudol i gyflwyno'r adroddiad yn y fformat hwn, roeddent yn awgrymu y gallai adroddiadau yn y dyfodol elwa o lai o ailadrodd a jargon, neu hyd yn oed fod yn fwy cryno. Byddai hyn yn helpu aelodau i ddeall y wybodaeth a gyflwynir yn well.

- Gofynnodd y Pwyllgor i'r adroddiad fanylu'n benodol ar sut y cydweithiodd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol gydag Ymddiriedolaethau Hamdden a chyrff llywodraethu

chwaraeon lleol i wella hygyrchedd hamdden. Gwnaethant hefyd holi am unrhyw brosiectau parhaus neu wedi'u cwblhau yn hyn o beth, gan ofyn am wybodaeth am eu dyddiadau cychwyn, lleoliadau, cyfraddau llwyddiant, a meysydd gwella posibl.

- Tynnodd y Pwyllgor sylw at y rhaglen Ailgartrefu Cyflym a'r ymrwymiad i beidio â defnyddio llety gwely a brecwast i gartrefu pobl ifanc dros dro, a gofynnodd am wybodaeth am elfen y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol o'r ymrwymiad hwn.

- Mynegodd y Pwyllgor ei fwriad i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru, gan ofyn iddynt ailystyried lleihau'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol, o ystyried yr amgylchiadau ariannol presennol.

- Holodd y Pwyllgor a oedd y bartneriaeth wedi datblygu strategaeth neu wedi cydweithio ar draws partneriaeth â'r Tîm Iechyd i fynd i'r afael â'r lefelau cynyddol o ordewdra yn y rhanbarth.

3 **Adroddiad Blynyddol Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gwent 2022-23**

Gwahoddedigion:
- Phil Diamond – Pennaeth y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol
- Sally Anne Jenkins – Cyfarwyddwr Strategol Gwasanaethau Cymdeithasol
- Y Cynghorydd Jason Hughes - Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol:

Rhoddodd Pennaeth y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a'r Cyfarwyddwr Strategol Gwasanaethau Cymdeithasol drosolwg o'r adroddiad.

Gofynnodd yr Aelodau'r cwestiynau canlynol:

- Gofynnodd y Pwyllgor sut y byddai'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn parhau i gyflawni ei amcanion strategol yn wyneb heriau. Amlygodd Pennaeth y Tîm Partneriaeth Rhanbarthol waith parhaus mewn partneriaethau a buddsoddiad i wneud y mwyaf o adnoddau. Mynegodd y Cyfarwyddwr Strategol hyder yn eu safle rhanbarthol cryf. Pwysleisiodd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol yr arloesedd sy'n deillio o waith partneriaeth.

- Holodd y Pwyllgor am fynd i'r afael â'r materion yn gysylltiedig â phoblogaeth sy'n heneiddio. Soniodd y Cyfarwyddwr Strategol am yr angen i bennu darpariaethau gofal ar gyfer pob blwyddyn ac ariannu'r anghenion hynny. Fe wnaethant dynnu sylw at y cynnydd yn y boblogaeth hen ac ifanc yng Nghasnewydd a phwysigrwydd cydweithredu rhanbarthol.

- Pwysleisiodd y Pwyllgor bwysigrwydd ceisio atebion y tu allan i'r DU. Nododd y Cyfarwyddwr Strategol natur fedrus gofal cartref a'r ffocws ar gynnal hirhoedledd iach. Pwysleisiodd y Pwyllgor natur hanfodol y gwasanaeth.

- Gofynnodd y Pwyllgor am adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth. Soniodd y Cyfarwyddwr Strategol am adborth dyddiol cadarnhaol a phwysigrwydd herio'r lefel o ofal a ddarperir. Amlygodd Pennaeth y Tîm Partneriaeth Rhanbarthol gyfraniad cynrychiolwyr Dinasyddion a Gofalwyr yn y bwrdd.

- Holodd y Pwyllgor am gynnig cyrsiau Iaith Arwyddion Prydain i ofalwyr. Eglurodd y Cyfarwyddwr Strategol fod hyfforddiant yn cael ei gynnig ond nid yn gyffredinol, er ei fod yn cael ei ystyried.

- Gofynnodd y Pwyllgor am gynlluniau neu strategaethau i hyrwyddo aer glân, amgylcheddau iach a mannau gwyrdd. Soniodd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol am bresenoldeb mannau gwyrdd yng Nghasnewydd ac amlygodd brosiectau i annog gweithgarwch corfforol. Nododd Pennaeth y Tîm Partneriaeth Rhanbarthol fod cynlluniau atgyfeirio ymarfer corff a gwneud y mwyaf o fannau gwyrdd yn cael eu blaenoriaethu.
- Cydnabu'r Pwyllgor y gwaith a wneir gan ofalwyr di-dâl, yn enwedig rhai ifanc.
- Gofynnodd y Pwyllgor am fwy o wybodaeth am fynd i'r afael ag arwahanrwydd ac unigedd o fewn y gweithlu gofal di-dâl. Nododd y Cyfarwyddwr Strategol ymdrechion parhaus yn y maes hwn.
- Canmolodd y Pwyllgor Brosiect Dementia arloesol Crick Road a amlygwyd yn yr adroddiad, a diolchodd Pennaeth y Tîm Partneriaeth Rhanbarthol am y gydnabyddiaeth.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am fod yn bresennol.

**<u>Casgliadau</u>**

- Canmolodd y Pwyllgor y bartneriaeth am eu hymdrechion parhaus, ac yn benodol, gwaith rhagorol gofalwyr di-dâl a gofalwyr ifanc gyda'r baich a'r pwysau maen nhw'n eu hwynebu, tra hefyd yn delio â'u hanghenion cymhleth eu hunain. Nodwyd bod cyllid grant Llywodraeth Cymru yn cael ei ddefnyddio i ddarparu gwasanaethau i dros 19,000 o ofalwyr di-dâl, ond dim ond ychydig dros 2,000 o'r rheiny a nododd eu bod yn teimlo'n llai ynysig. Roedd ganddynt ddiddordeb mewn archwilio sut y gallwn gynyddu nifer y gofalwyr di-dâl sy'n manteisio ar y cyllid a chael mwy o adborth cadarnhaol.
- Ailadroddodd y Pwyllgor fod y ddogfen yn hir ac argymhellodd y dylid gwella adroddiadau yn y dyfodol drwy leihau ailadrodd a jargon, neu drwy eu gwneud yn fwy cryno.
- Canmolodd y Pwyllgor astudiaeth achos Prosiect Dementia Crick Road gan nodi ei fod yn arloesol. Gofynnodd y Pwyllgor am ragor o wybodaeth ynghylch a oedd hyn yn mynd i gael ei fodelu mewn mannau eraill yn y rhanbarth.

4 **Adroddiad Cynghorydd Craffu**

Gwahoddedig:
- Neil Barnett – Ymgynghorydd Craffu

**a) Diweddariad ar y Flaenraglen Waith**

Cyflwynodd yr Ymgynghorydd Craffu'r Flaenraglen Waith, a dywedodd wrth y Pwyllgor am y pynciau a oedd i'w trafod yn y ddau gyfarfod pwyllgor nesaf:

**Dydd Mercher 8 Tachwedd 2023**, eitemau'r agenda;
- Partneriaeth Menter ar y Cyd Norse – Adolygiad Strategaeth a Pherfformiad
- Asesiad Anghenion Strategol Drafft Casnewydd Ddiogelach

**Dydd Mercher 6 Rhagfyr 2023**, yr eitem ar yr agenda;
- Polisi a Chanllaw Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol

- Gwasanaeth Cyflawni Addysg – Gwerth am Arian 2023-24

Daeth y cyfarfod i ben am 11.36 am

5 **Digwyddiad Byw**

Daeth y cyfarfod I ben am 11.36 am